TGAU Gwneud-i-Gymru

Dull a Methodoleg Ymgynghori

1 Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno crynodeb o'n dull o gasglu a dadansoddi'r ymatebion a dderbyniwyd i'n hymgynghoriad cyhoeddus ar y cymwysterau TGAU Gwneud-i-Gymru newydd.

1.1 Cefndir

Yn 2021, fe wnaethom ni gyhoeddi'r ystod o bynciau TGAU newydd a fyddai ar gael i gefnogi nodau allweddol y Cwricwlwm i Gymru (y Cwricwlwm). Ers hynny, rydym wedi bod yn gweithio'n agos gydag ystod eang o gyfranwyr i gyd-greu cynigion ar gyfer y cymwysterau newydd hyn.

Roedd ein dull o gyd-greu yn cynnwys mwy na 30 o weithgorau lefel pwnc a fforymau rhanddeiliaid ehangach. Roedd y grwpiau hyn yn cynnwys ystod eang o gyfranwyr, gan gynnwys dysgwyr, athrawon, darlithwyr, arholwyr, rhieni, cyflogwyr, cyrff dysgedig a phroffesiynol, grwpiau diddordeb pwnc, a phrifysgolion a cholegau addysg bellach.

Roedd y grwpiau dan sylw yn cynnwys:

- sefydliadau elusennol
- Estyn
- colegau addysg bellach
- awdurdodau lleol
- cyrff cyhoeddus
- panel cynghori i ddysgwyr Cymwysterau Cymru
- consortia addysg rhanbarthol
- cyrff crefyddol
- sefydliadau cymorth sector a sefydliadau aelodaeth proffesiynol
- ysgolion uwchradd a chynradd
- undebau athrawon
- Llywodraeth Cymru
- CBAC a chyrff dyfarnu eraill
- prifysgolion o bob rhan o Gymru a'r DU

Fe wnaethom ni hefyd sefydlu grŵp cynghori academaidd, gan gynnwys arbenigwyr ar gwricwla rhyngwladol ac asesu, i'n helpu i ystyried goblygiadau agweddau penodol ar ddiwygio cymwysterau.

At ei gilydd, fe wnaethom gyd-greu 26 o gynigion ar wahân ar gyfer cymwysterau TGAU newydd a rhai cymwysterau cysylltiedig ar draws chwe maes y Cwricwlwm i Gymru.

Tabl 1: Cymwysterau y buom yn ymgynghori yn eu cylch

Y Celfyddydau Mynegiannol	Y Dyniaethau	Iechyd a Lles
• TGAU Celf a Dylunio • TGAU Dawns • TGAU Drama • TGAU Ffilm a'r Cyfryngau Digidol† • TGAU Cerddoriaeth	• TGAU Busnes • TGAU Daearyddiaeth • TGAU Hanes • TGAU Astudiaethau Crefyddol	• TGAU Bwyd a Maeth • TGAU Iechyd ac Addysg Gorfforol‡ • TGAU Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant

	• TGAU Astudiaethau Cymdeithasol	
Ieithoedd, Llenyddiaeth a Chyfathrebu	**Mathemateg a Rhifedd**	**Gwyddoniaeth a Thechnoleg***
• TGAU Iaith Arwyddion Prydain • TGAU Iaith a Llenyddiaeth Gymraeg • TGAU Cymraeg Craidd • TGAU Iaith a Llenyddiaeth Saesneg • TGAU mewn Ffrangeg, Almaeneg a Sbaeneg • Dyfarniad Lefel 2 mewn Cymraeg Craidd Ychwanegol	• TGAU Mathemateg a Rhifedd • Lefel 1 Rhif, Mesur a Data • Lefel 2 Mathemateg Ychwanegol	• TGAU Cyfrifiadureg • TGAU Dylunio a Thechnoleg • TGAU Peirianneg • TGAU Y Gwyddorau (Dyfarniad Dwbl)

** Trwy ein gwaith datblygu ar y cyd, daethom i'r casgliad na fyddai angen diwygio sylweddol ar ddwy TGAU a grëwyd yn ddiweddar yn y maes hwn (TGAU Amgylchedd Adeiledig a TGAU Technoleg Ddigidol) i gefnogi'r Cwricwlwm.*

† Ers yr ymgynghoriad, mae enw'r cymhwyster hwn wedi newid i TGAU Ffilm a Chyfryngau Digidol.

‡ Ers yr ymgynghoriad, mae enw'r cymhwyster hwn wedi newid i TGAU Addysg Gorfforol ac Iechyd.

Er mwyn casglu adborth ar y cynigion, gwnaethom lansio ymgynghoriad cyhoeddus a oedd yn agored ar gyfer ymatebion rhwng 4 Hydref a 14 Rhagfyr 2022. O'r lansiad yn Ysgol Uwchradd Llanisien yng Nghaerdydd a thrwy gydol yr ymgynghoriad, fe wnaethom ymgysylltu ag amrywiaeth o randdeiliaid, gan ddilyn methodoleg debyg i'r hyn a fabwysiadwyd ar gyfer ymgynghoriadau blaenorol.

Fel rhan o'r gwaith ymgysylltu hwn, gwnaethom gynnwys ein grwpiau rhanddeiliaid sefydledig, sy'n cwmpasu - arweinwyr ysgolion a cholegau, partneriaid Cymraeg, cymwysterau galwedigaethol, addysg uwch, cyfarwyddwyr addysg ac undebau athrawon.

Buom hefyd yn ymgysylltu'n rheolaidd â'n grŵp rhanddeiliaid Cymwys ar gyfer y Dyfodol, a sefydlwyd gennym yn benodol i weithio gyda ni ar y daith o ddiwygio cymwysterau 14-16. Mae'r grŵp hwn yn cynnwys nifer o gyrff cynrychioliadol ac arweinwyr addysg o ysgolion, addysg bellach, dysgu seiliedig ar waith ac addysg uwch. Roeddem yn rhagweithiol wrth ymgysylltu â phrifysgolion a cholegau addysg bellach y DU (gan gynnwys y rhai yn Lloegr sy'n agos at y ffin â Chymru) i gasglu adborth ar yr effaith y gallai'r newidiadau hyn ei chael ar ddilyniant i ddysgwyr Cymraeg.

Roedd dulliau ymgysylltu eraill yn cynnwys partneru â'r consortia rhanbarthol i gynnal gweminarau rhanbarthol ar gyfer arweinwyr ysgolion, a sesiwn friffio a galw heibio ar gyfer Aelodau'r Senedd a'u staff. Gan weithio gyda'r Sefydliad Materion Cymreig, fe wnaethom gynnal gweminar i siarad â'i aelodau a gweithio gyda phartneriaethau sgiliau rhanbarthol a chyrff cynrychioli cyflogwyr eraill i godi ymwybyddiaeth o'r cynigion. Fe wnaethom barhau

â'n gwaith gyda Parentkind i godi ymwybyddiaeth o'r ymgynghoriad a'r newidiadau arfaethedig gyda rhieni a gofalwyr.

Gyda dysgwyr yn greiddiol i'r hyn a wnawn, mae ein grŵp dysgwyr wedi parhau i herio a chefnogi ein gwaith. Cyn lansio'r cynigion, fe wnaethom gynnal gwaith ymgysylltu helaeth â dysgwyr a chyrraedd dros 800 o ddysgwyr drwy grwpiau ffocws ledled Cymru. Cawsom hefyd dros 500 o ymatebion drwy arolwg. Helpodd yr ymgysylltu hwn i lunio'r cynigion a'n penderfyniadau dilynol. Gan adlewyrchu gweledigaeth Senedd Ieuenctid Cymru ar gyfer y Cwricwlwm, fe wnaethom hefyd gynnal sesiwn gyda chynrychiolwyr ei phwyllgor addysg.

Cyn yr ymgynghoriad, fe wnaethom hefyd gynnal un o Sgyrsiau Rhwydwaith Cenedlaethol Llywodraeth Cymru gydag ymarferwyr addysgu. Diben hyn oedd archwilio'r berthynas rhwng cymwysterau a'r Cwricwlwm i Gymru. Defnyddiwyd adborth o'r rhwydwaith i helpu i lunio a llywio ein cynigion ymgynghori.

Gan fod llawer o wybodaeth i'w chynnwys, penderfynwyd cynnal gweminarau ar y cymwysterau arfaethedig ym mho maes y Cwricwlwm. Dyma gyfle i ganolbwyntio ar y cynigion dylunio manwl ar draws pob maes cwricwlwm, gan alluogi rhanddeiliaid i godi cwestiynau a thrafod eu barn.

Yn dilyn yr ymgynghoriad, fe wnaethom goladu a dadansoddi'r adborth a ddarparwyd yn systematig. Aethom â'r canfyddiadau yn ôl i'n gweithgorau lefel pwnc a gofyn am eu barn ar sut y gallem fynd i'r afael â'r pwyntiau a godwyd. Bu i'r broses ymgynghori a chyd-greu lywio ein penderfyniadau ar y gofynion dylunio, a amlinellir yn llawn yn y prif adroddiad ymgynghori a'r adroddiadau lefel pwnc ategol ar ganlyniadau'r ymgynghoriad.

1.2 Ynglŷn â'r ymgynghoriad

Fe wnaethom gynnal ein hymgynghoriad ar ein platfform ymgynghori ar-lein newydd, Dweud Eich Dweud, sef gwefan benodol i ymgysylltu â'r cyhoedd a chasglu adborth gan randdeiliaid. Gofynnwyd i ymatebwyr gofrestru ar gyfer y platfform a darparu rhywfaint o wybodaeth ychwanegol, fel ym mha rinwedd yr oeddent yn ymateb. Defnyddiwyd yr wybodaeth hon i fesur cyrhaeddiad yr ymgynghoriad ac i helpu i ddehongli'r ymatebion. Roedd angen i ymatebwyr dan 13 oed gael caniatâd eu rhieni/gwarcheidwaid i gofrestru.

Fe wnaethom strwythuro'r ymgynghoriad i adlewyrchu chwe maes y Cwricwlwm. Roedd gan bob cymhwyster ei adran ei hun yn cyflwyno crynodeb o'r cynnig ac arolwg ategol. Roedd pob crynodeb yn cynnwys dolen i esboniad manwl a fersiwn o'r cynnig oedd yn addas i bobl ifanc. Anelwyd y fersiwn oedd yn addas i bobl ifanc at wneud yr ymgynghoriad yn hygyrch i bobl ifanc.

Roedd y cyfranogwyr yn gallu ateb arolwg ar gyfer pob cynnig cymhwyster. Fe wnaethom hefyd gynnwys arolwg lle gofynnwyd i'r ymatebwyr am eu barn am ein dull gweithredu cyffredinol (er enghraifft, cysondeb â'r Cwricwlwm, dulliau asesu, hylawrwydd, ac effeithiau posibl y cynigion). Roedd strwythur y platfform yn caniatáu i gyfranogwyr ddewis pa arolwg (neu arolygon) i ymateb iddynt.

Roedd defnyddio arolygon ar-lein yn ein galluogi i gyrraedd cynulleidfa ehangach. Roeddent yn rhoi'r hyblygrwydd i gyfranogwyr ymateb ar adeg a oedd yn gyfleus iddyn nhw. O ystyried y nifer fawr o gynigion, roedd yr arolygon hefyd yn darparu ffordd hylaw o gasglu data ac yn darparu strwythur cyson i hwyluso'r broses o ddadansoddi'r data.

Yn ogystal â'r arolygon, darparwyd fersiwn PDF o'r cynigion a'r cwestiynau cysylltiedig y gellid ei hanfon drwy e-bost i gyfeiriad e-bost penodol neu ei phostio at Cymwysterau Cymru pe bai'n well gan ymatebwyr beidio â chofrestru ar gyfer 'Dweud Eich Dweud'. Os oedd angen fersiwn fwy hygyrch o'r cynigion a chwestiynau'r arolwg ar ymatebwyr, gallent ofyn am hyn drwy e-bost.

Mae gwybodaeth a dogfennau'r ymgynghoriad i'w gweld o hyd trwy wefan yr ymgynghoriad.

Ar draws y 27 arolwg, cawsom 2,101 o ymatebion i'n hymgynghoriad ar-lein. Ceir dadansoddiad llawn o nifer yr ymatebion a gawsom i bob arolwg ar-lein yn Nhabl 2. Yn ogystal ag ymatebion a gasglwyd trwy 'Dweud Eich Dweud', cawsom hefyd 26 o ymatebion mewn fformat arall (cyflwyniad PDF neu e-bost).

Cyflwynwyd llawer o'r ymatebion fformat amgen ar ran sefydliadau sy'n gweithio yn y sector addysg yng Nghymru, neu â diddordeb ynddo. Roedd rhai o'r ymatebion hyn yn canolbwyntio ar gymwysterau neu themâu penodol, tra oedd eraill wedi darparu ymateb ar bob cymhwyster arfaethedig.

Tabl 2: Nifer yr ymatebion i bob arolwg ar-lein

Arolwg	Nifer yr ymatebion a dderbyniwyd drwy 'Dweud Eich Dweud'
Ein Dull o Ddiwygio	99
TGAU Y Gwyddorau (Dyfarniad Dwbl)	443
TGAU Iaith a Llenyddiaeth Saesneg	240
TGAU Mathemateg a Rhifedd	177
TGAU Hanes	117
TGAU Iechyd ac Addysg Gorfforol	115
TGAU Astudiaethau Crefyddol	101
TGAU Daearyddiaeth	78
TGAU Dylunio a Thechnoleg	76
TGAU Iaith a Llenyddiaeth Gymraeg	75
TGAU mewn Ffrangeg, Almaeneg a Sbaeneg	66
TGAU Busnes	64
TGAU Cymraeg Craidd	50
TGAU Bwyd a Maeth	46
Lefel 1 Rhif, Mesur a Data	41
TGAU Celf a Dylunio	41
Lefel 2 Mathemateg Ychwanegol	40

TGAU Cyfrifiadureg	38
TGAU Cerddoriaeth	31
TGAU Astudiaethau Cymdeithasol	28
TGAU Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant	26
TGAU Peirianneg	26
TGAU Drama	25
TGAU Dawns	16
TGAU Ffilm a Chyfryngau Digidol	15
Dyfarniad Lefel 2 mewn Cymraeg Craidd Ychwanegol	14
TGAU Iaith Arwyddion Prydain	13

Ymatebodd cyfanswm o 1,722 o ddefnyddwyr unigol i un neu fwy o'r arolygon ar-lein. Cwblhawyd 1,550 arolwg gan ddefnyddio'r platfform Saesneg a chwblhawyd 172 arolwg ar y platfform Cymraeg. Dywedodd 97.7% o'r ymatebwyr eu bod wedi'u lleoli yng Nghymru, gyda nifer fach o ymatebion o Loegr, Gogledd Iwerddon a gwledydd eraill. Cawsom ymatebion gan gyfranogwyr ym mhob awdurdod lleol yng Nghymru. Roedd nifer yr ymatebwyr fesul awdurdod lleol yn amrywio o 10 (Merthyr Tudful) i 201 (Caerdydd).

Wrth gofrestru ar gyfer 'Dweud eich Dweud', gofynnir i ddefnyddwyr nodi pa gategori sy'n eu 'disgrifio orau'. Dangosir dadansoddiad yr ymatebwyr yn ôl y categorïau hyn yn Ffigur 1. Roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn weithwyr addysg proffesiynol (76.8%) ac yna rhieni/gofalwyr (11.7%). Efallai y bydd rhai ymatebwyr hefyd yn perthyn i gategori ar wahân i'r un a ddewiswyd ganddynt.[1]

Ffigur 1: Ymatebwyr arolwg yn ôl math



[1] Mae holl wybodaeth yr ymatebwyr wedi'i chysylltu â'r cyfrif defnyddiwr ar 'Dweud Eich Dweud'. Gall defnyddwyr ddiweddaru eu gwybodaeth unrhyw bryd. Mae'r ffigurau a adroddir yma yn cynrychioli data ymatebwyr ar 25 Mai 2023, ac nid ydynt mewn rhai achosion efallai'n adlewyrchu'r data a gasglwyd pan gwblhaodd yr ymatebwyr yr arolwg. Mae defnyddwyr a gwblhaodd arolygon ar y platfformau Cymraeg a Saesneg yn cael eu cyfrif ddwywaith.

Er i ni dderbyn ymatebion gan amrywiaeth o randdeiliaid, mae cymryd rhan mewn ymgynghoriad bob amser yn wirfoddol ac yn hunanddewisol. Efallai y bydd gan y rhai sy'n ymateb ddiddordeb arbennig ym mhwnc yr ymgynghoriad. Yn unol â hynny, ni ellir defnyddio ymgynghoriad i fesur lefelau cefnogaeth y cyhoedd i gynnig. Felly, dylem fod yn ofalus i beidio â chyffredinoli canfyddiadau i'r boblogaeth ehangach.

1.3 Cwestiynau'r ymgynghoriad

Crëwyd y cwestiynau trwy broses gydweithredol lle cyfrannodd gwahanol dimau at eu llunio. Roedd yr arolygon pwnc unigol fel arfer yn gofyn saith cwestiwn, gyda rhai arolygon yn gofyn cwestiynau ychwanegol, penodol i gymwysterau (fel ar haenau a theitlau). Mae'r rhestr lawn o gwestiynau i'w gweld yn yr atodiad.

Roedd y cwestiynau'n cynnwys opsiynau ymateb caeedig ac agored. Roedd yr opsiynau ymateb caeedig yn galluogi ymatebwyr i nodi i ba raddau yr oeddent yn cytuno neu'n anghytuno â datganiadau penodol am y cynigion gan ddefnyddio graddfa pum pwynt. Dilynwyd hyn gan flwch sylwadau lle roedd ymatebwyr yn gallu esbonio eu hatebion.

Gofynnwyd y cwestiynau safonol am y meysydd canlynol:

- cysondeb â'r Cwricwlwm i Gymru
- y nodau a'r amcanion arfaethedig
- y cynnwys arfaethedig
- y trefniadau asesu arfaethedig
- a fyddai'r cymwysterau yn diwallu anghenion rhesymol dysgwyr
- a fyddai'r cymwysterau yn hylaw i athrawon eu cyflwyno
- cytuno neu anghytuno'n gyffredinol â'r cynigion

Nid oedd pob ymatebwr wedi ymateb i bob cwestiwn. Dylid nodi hefyd na roddodd yr holl ymatebwyr a gwblhaodd y cwestiynau caeedig sylw ysgrifenedig i bob un o'r cwestiynau hynny. Yn ogystal, cyflwynwyd rhai ymatebion ar ran sefydliadau, gan gynnwys sefydliadau aelodaeth a chynrychioliadol, ac roeddent yn cynrychioli safbwyntiau mwy nag un unigolyn.

1.4 Dull o ddadansoddi'r ymatebion i'r ymgynghoriad

Dadansoddwyd yr holl ymatebion a dderbyniwyd i'r ymgynghoriad. Crynhowyd yr ymatebion caeedig yn ystadegau disgrifiadol. Mae'r gwaith adrodd yn dangos cyfran yr ymatebwyr a nododd a oeddent yn cytuno'n gryf, yn cytuno, ddim yn cytuno nac yn anghytuno, anghytuno, neu anghytuno'n gryf â'r cynigion. Cyflwynir yr ystadegau hyn ar gyfer pob cwestiwn yn yr adroddiadau pwnc. Mae canrannau wedi'u talgrynnu i'r ganran gyfan agosaf. Ym mhob achos, mae talgrynnu wedi'i gymhwyso fel cam olaf. Mae'n bosibl na fydd rhai cyfansymiau wedi'u talgrynnu yn cyfateb i swm ffigurau eraill wedi'u talgrynnu.

Dadansoddwyd yr holl ymatebion i'r ymgynghoriad yn systematig. Roedd y dadansoddiad yn cynnwys categoreiddio gwybodaeth a ddarparwyd gan ymatebwyr yn themâu trosfwaol. Defnyddiwyd y themâu hyn i gyflwyno barn ymatebwyr ar y cynigion. Cynhaliwyd y

dadansoddiad gan staff Cymwysterau Cymru a fu'n ymwneud â chyd-greu'r cynigion, yn ogystal â thîm ymchwil Cymwysterau Cymru. Derbyniodd pob aelod o'r tîm ymgynghori sesiwn hyfforddi a drefnwyd ac a gyflwynwyd yn fewnol ar sut i godio a dadansoddi'r data ymateb agored.

Er mwyn hyrwyddo trylwyredd yn y dadansoddiad, cwblhawyd dadansoddiad thematig o'r ymatebion yn y camau canlynol:

1. Dewiswyd sampl o hyd at 50 o ymatebion i bob cwestiwn lle bo modd. Darllenodd dau aelod o staff (y cyfeirir atynt yma fel codyddion) yr ymatebion yn unigol a nodi eu syniadau cychwynnol wrth iddynt ddarllen. Cynhyrchodd pob un ar wahân fframwaith codio a awgrymwyd yn cynnwys codau a disgrifiadau cysylltiedig, yn ogystal â nifer yr amseroedd y defnyddiwyd codau.
2. Yna, cyfarfu'r codyddion i adolygu a chytuno ar y fframwaith codio. Lle'r oedd gwahaniaethau yn naill ai'r cod neu'r diffiniad, adolygwyd yr ymatebion perthnasol a chytunwyd ar y cod/diffiniad mwyaf priodol. Lle'r oedd gan y ddau godydd god a oedd yr un fath neu'n debyg iawn, roedd y codyddion yn gwirio a oedd y 'cyfrif' ar gyfer pob cod yr un peth. Lle'r oedd gwahaniaethau sylweddol, ailymwelwyd â'r ymatebion perthnasol. Roedd y broses hon yn caniatáu i ansicrwydd neu gamganfyddiadau gael eu hegluro er mwyn sicrhau dealltwriaeth gyffredin o'r ymatebion.
3. Unwaith y cytunwyd ar y fframweithiau drafft, cyflwynodd pob tîm ei fframweithiau i'r tîm ymchwil at ddibenion sicrhau ansawdd. Nododd y tîm ymchwil godau y gallai fod angen eu hadolygu, gan awgrymu codau y gellid eu defnyddio'n gyson ar draws y gyfres.
4. Ar ôl i'r fframweithiau gael eu hadolygu gan y tîm ymchwil, roedd codyddion wedyn yn cymhwyso'r fframweithiau y cytunwyd arnynt yn gyson i'r holl ymatebion a dderbyniwyd. Lle cyflwynwyd ymatebion mewn fformat arall, dirprwywyd y rhain i'r timau priodol i'w dadansoddi.
5. Yn y rhan fwyaf o achosion, roedd yr ymatebion i bob cwestiwn yn cael eu rhannu rhwng dau godydd ac roedd pob trydydd ymateb yn cael ei godio ddwywaith o leiaf (codio gan ddau aelod o staff). Ar gyfer pynciau a gafodd nifer arbennig o uchel o ymatebion, rhannwyd y gwaith codio rhwng tri o bobl a chafodd o leiaf chwarter yr ymatebion eu codio ddwywaith.
6. Lle'r oedd anghysondebau yn y codau ar gyfer yr ymatebion a godiwyd ddwywaith, adolygwyd yr ymatebion hyn cyn cytuno ar y cod terfynol. Os nad oedd ymateb yn cyd-fynd ag un o'r codau a nodwyd yn ystod y cyfnod cychwynnol, cynhyrchwyd cod newydd.
7. Roedd y defnydd o bob cod yn cael ei gyfrif yn awtomatig. Roedd hyn yn galluogi codyddion i nodi amlygrwydd pob thema yn yr ymatebion.
8. Cafodd pob cod a'r testun sy'n gysylltiedig ag ef ei grwpio o dan thema berthnasol yn ôl cysyniadau neu batrymau cyffredinol a ddeilliodd o'r data wedi'u codio.
9. Trefnwyd sesiynau galw heibio gyda'r tîm ymchwil trwy gydol y broses ddadansoddi i gynorthwyo codyddion gydag unrhyw gwestiynau.

Cadwyd data ar yriant diogel a dim ond adolygwyr oedd â mynediad iddo. Lle'r oedd hynny'n bosibl, dadansoddwyd ymatebion a ddarparwyd yn y Gymraeg gan siaradwyr Cymraeg. Lle nad oedd hyn yn bosibl, cyfieithwyd yr ymatebion.

Atodiad

Cwestiynau am ein dull o ddiwygio

I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno, ar y cyfan, fod dyluniad arfaethedig y cymwysterau sydd wedi'u cynnwys yn yr ymgynghoriad hwn yn cefnogi'r Cwricwlwm i Gymru?

I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno, ar y cyfan, fod y trefniadau asesu arfaethedig ar gyfer y cymwysterau sydd wedi'u cynnwys yn yr ymgynghoriad hwn yn mesur yn deg ac yn gywir yr hyn mae dysgwyr yn ei wybod, yn ei ddeall ac yn gallu ei wneud?

Ar y cyfan, a fydd dyluniad arfaethedig y cymwysterau sydd wedi'u cynnwys yn yr ymgynghoriad hwn yn hylaw ac yn hygyrch i ddysgwyr? Eglurwch eich ateb isod.

Ar y cyfan, a fydd y dyluniad arfaethedig ar gyfer y cymwysterau sydd wedi'u cynnwys yn yr ymgynghoriad hwn yn hylaw i ganolfannau ei ddarparu? Eglurwch eich ateb isod. Ystyriwch ffactorau fel amserlennu, effaith asesiadau di-arholiad, adnoddau ffisegol a digidol, a staffio.

Beth ydych chi'n meddwl sydd ei angen i gefnogi gweithredu'r cymwysterau sydd wedi'u cynnwys yn yr ymgynghoriad hwn yn llwyddiannus? Eglurwch eich ateb isod.

Cwestiynau asesiad effaith rheoleiddiol

A oes unrhyw effeithiau rheoleiddiol nad ydyn nhw wedi'u nodi'n codi o'r cynigion?

Os oes, beth yw'r effeithiau ac a oes unrhyw gamau ychwanegol y gellid eu cymryd i leihau effaith reoleiddiol y cynigion?

A oes unrhyw gostau, arbedion neu fanteision eraill sy'n gysylltiedig â'r cynigion nad ydyn nhw wedi eu nodi? Rhowch amcangyfrif o ffigurau lle bo hynny'n bosibl.

A oes unrhyw wybodaeth ychwanegol a ddylai gael ei hystyried wrth werthuso costau a manteision y cynigion?

Asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb

Rydym wedi nodi ffyrdd y gallai'r cynigion dylunio ar gyfer y cymwysterau TGAU Gwneud-i-Gymru newydd a chymwysterau cysylltiedig effeithio (yn gadarnhaol neu'n negyddol) ar bobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig.

A oes unrhyw effeithiau posib eraill nad ydyn ni wedi eu enwi? ( ) Oes ( ) Nac oes
Os oes, beth ydyn nhw?

A oes unrhyw gamau ychwanegol y gallem ni eu cymryd i leihau unrhyw effaith negyddol ar bobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig o ganlyniad i'r cynigion hyn?

Rhowch sylwadau ar y camau ychwanegol y gallem ni eu cymryd i liniaru effeithiau negyddol.

Gan ystyried pwrpas y cymwysterau, a fyddai modd newid y cynigion dylunio ar gyfer y cymwysterau TGAU Gwneud-i-Gymru newydd a chymwysterau cysylltiedig er mwyn hybu cyfle cyfartal yn well rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rhai nad ydynt?

Os felly, pa newidiadau i ddyluniad y cymwysterau TGAU Gwneud-i-Gymru newydd a chymwysterau cysylltiedig y byddech yn eu hawgrymu er mwyn hybu cyfle cyfartal yn well?

A oes gennych chi unrhyw sylwadau eraill ar effeithiau'r cynigion ar bobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig?

Asesiad o'r effaith ar y Gymraeg

Rydyn ni wedi nodi ffyrdd y gallai'r cynigion dylunio ar gyfer y cymwysterau TGAU Gwneud-i-Gymru newydd a chymwysterau cysylltiedig effeithio (yn gadarnhaol neu'n negyddol) ar y Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

A oes unrhyw effeithiau posibl eraill nad ydym wedi eu henwi? Os oes, beth ydyn nhw?

Sut mae modd cynyddu effeithiau cadarnhaol, neu liniaru effeithiau negyddol?

Cwestiynau lefel pwnc

I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno bod dyluniad arfaethedig [mewnosodwch y cymhwyster] yn cefnogi'r Cwricwlwm i Gymru?

I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â phwrpas a nodau arfaethedig [insert qual title]?

I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r cynnwys arfaethedig (gwybodaeth, dealltwriaeth, sgiliau a phrofiadau) ar gyfer [insert qual]?

I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r trefniadau asesu arfaethedig, gan gynnwys rôl technoleg ddigidol, ar gyfer [insert qual]?

I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno bod y cynnig ar gyfer [name of the qual] yn diwallu anghenion rhesymol dysgwyr yng Nghymru? Ystyriwch ffactorau fel hygyrchedd, hylawrwydd, lles, a dilyniant i lwybrau ôl-16.

I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno bod y cymhwyster [insert qual] arfaethedig yn hylaw i athrawon ei gyflwyno? Ystyriwch ffactorau fel maint y cymhwyster, adnoddau, a'r dull arfaethedig o asesu.

Yn gyffredinol, i ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'n cynnig ar gyfer [insert qual]?

Cwestiynau penodol i bwnc

Lefel 1 Rhif, Mesur a Data

I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'n teitl arfaethedig ar gyfer y cymhwyster, sef Lefel 1 Rhif, Mesur a Data?

TGAU Mathemateg a Rhifedd

Pa opsiwn ar gyfer haenu sydd orau gennych chi?

- *Dwy haen*
- *Tair haen*
- *Dim ffafriaeth*
- *Ddim yn siŵr*

Lefel 2 Mathemateg Ychwanegol

I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r ystod ddangosol o unedau arfaethedig?

TGAU Iechyd ac Addysg Gorfforol

I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â theitl ein cymhwyster arfaethedig, sef Iechyd ac Addysg Gorfforol?

TGAU Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant

I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â chael dyfarniad dwbl mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant?

Yn gyffredinol, i ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r pwrpas a'r nodau, y cynnwys a'r asesiadau arfaethedig ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant (Dyfarniad Dwbl)?

TGAU Y Gwyddorau (Dyfarniad Dwbl)

I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â theitl ein cymhwyster arfaethedig, sef Y Gwyddorau (Dyfarniad Dwbl)?

Rydym wedi cynnig dau opsiwn ar gyfer strwythuro'r arholiadau allanol:
Opsiwn 1: Byddai dysgwyr yn sefyll arholiadau bioleg, cemeg a ffiseg ar wahân ar ddiwedd Blwyddyn 11 (gallai hyn alluogi adrodd ar raddau ar wahân ar gyfer pob pwnc).
Opsiwn 2: Byddai tri arholiad, pob un yn cynnwys cyfuniad o gynnwys bioleg, cemeg a ffiseg, yn cael eu sefyll ar draws blynyddoedd 10 ac 11. Pa un o'r opsiynau hyn sydd orau gennych chi?

TGAU Cymraeg Craidd

I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â theitl ein cymhwyster arfaethedig, sef Cymraeg Craidd?

Dyfarniad Lefel 2 mewn Cymraeg Craidd Ychwanegol

I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â theitl ein cymhwyster arfaethedig, sef Dyfarniad Lefel 2 mewn Cymraeg Craidd Ychwanegol?